

Gwella tai ac arbed ynni – nid swcro'r cwmnïau cynhyrchu

Gyda degau o filoedd yn marw o oerfel, yr Athro Gareth Wyn Jones yn digalonni wrth drafod y cynlluniau i newid tollau gwyrdd ar y cwmnïau ynni ...

TRIST iawn oedd darllen bod dros 30,000 o farwolaethau ychwanegol yng Nghymru a Lloegr yn ystod gaeaf oer 2013. Roedd y rhan fwyaf o'r rhain yn bobol dros eu 75 oed ac yn ferched. Pob un yn drychineb - rhai yn destun galar teuluol ond eraill, fe ofnaf, yn marw yn unig a diymgeledd mewn ystafelloedd oer digysur.

Siawns llwyr, wrth gwrs, yw bod y rhif mor debyg i'r nifer a gafodd eu lladd mewn trychinebau tywydd yn yr Unol Daleithiau. Roedd y lladdfa yn yr UDA yn ymestyn dros 40 mlynedd mewn gwlad o 300 miliwn ond y marwolaethau yma yn digwydd mewn cwta bedwar mis mewn poblogaeth o 55 miliwn. Yn ystadegol felly, trychineb dros saith deg gwaith gwaeth!!

Rhaid holi sut yn y byd y goddefir, mewn gwledydd 'gwar' a chyfoethog, y fath beth â hynny heb wrthdystiadau ar ein strydoedd nac yn wir lawer o strach. Gobeithio na fydd gaeaf 2014 mor farwol!

Mae Llywodraeth San Steffan a thalp o'r wasg Lundeinig yn rhoi'r bai ar y cwmnïau ynni, nid yn gymaint am y marwolaethau, ond am bris uchel tanwydd yn gyffredinol. Miliband yn canolbwyntio ar eu helw; Cameron yn honni mai diffyg cystadleuaeth rhwng y chwe chwmni mawr a'r tollau gwyrdd - "*green crap*" - sydd wrth wraidd y broblem.

MANTAIS BITW WLEIDYDDOL

A'u hateb yw diddymu rhai o'r tollau gwyrdd ac annog fwy o gystadleuaeth! Y gobaith yw y bydd ein tanwydd yn rhatach a'r hen a'r tlawd yn gallu fforddio llosgi mwy o nwy, trydan, glo neu olew a chadw'n gynhesach. O bosib bydd y dewis rhwng bwyd a gwres yn llai tyngedfennol!

Ond rhaid oedi am funud. Ar wahân i'r tymor byr a mantais bitw wleidyddol, ydi'r dadleuon yn gwneud synnwyr? Gofiwch mai Llywodraethau Llundain o bob lliw a ganiataodd y cwmnïau ynni yn y lle cyntaf. Credant fod y sector preifat yn fwy effeithlon ac yn denu buddsoddiadau mawr o'r marchnadoedd arian.

Yn ôl damcaniaeth preifateiddio, roedd disgwyl gwell gwasanaeth ac, yn bwysig, llai o alw ar bwrs y wlad a'r ddyled gyhoeddus.

Ond pwrpas cwmni yw creu elw i'w gyfranddalwyr, ac amcan cyllidwyr a rheolwyr y cronfeydd arian yw sicrhau enillion da i'w clientau (yn aml cronfeydd pensiwn). Beth well, felly, na marchnata ynni angenrheidiol?!

Felly, mae elfen ragrithiol yn safiadau Cameron a Miliband. A pheryg amlwg y bydd y strach hwn yn llesteirio'r buddsoddiadau angenrheidiol i'r dyfodol.

Mae agweddau llawer mwy sylfaenol. Pam gymaint o farwolaethau? Ni chlywais am broblem gyffelyb mewn gwledydd llawer oerach.

Gwraidd ein problem yng Nghymru (a Lloegr) yw natur a chyflwr ein stoc tai - hen, drafftig a thamp. Tai yn colli gwres a phres fel rhidyll bras.

O wella'r stoc byddwn yn safio gwres ac allyrron nwyon tŷ gwydr, yn lleihau costau, yn gwneud pobol yn fwy cyfforddus, yn lleihau'r galwadau ar ein hysbytai a'n mynwentydd ac, yn bwysig, gostwng ychydig ar y bygythiad newid hinsawdd i'r dyfodol.

Nid polisi hawdd i'w weithredu mi wn, ond synnwyr cyffredin.

CWTOGIADAU CAMERON YN DIGALONNI

Mae gwresogi gofod - tai, swyddfeydd etc. - yn gyfrifol am tua threian o'r holl alw am ynni. Ni fydd y cwmnïau dosbarthu a chynhyrchu ynni yn croesawu cwtogi mawr yn y galw, ond mae bron pawb ar eu hennill.

Un elfen o'r "crap gwyrdd" yw toll tuag at dalu am ynysu yn well tai'r anghenus. Mae'n ymddangos mai cwtogi neu ohirio hwn yw bwriad Cameron gyda 'sop' i help ynysu tai i'r rhai sy'n symud. Digon i'n digalonni.

Yng Nghymru mae tua 1.3 miliwn o dai a thua 300,000 o bobl yn dioddef o dlodi tanwydd – yn cael traferth cadw'n glyd o fewn eu cyllideb.

Ychydig o ddegau o dai sy'n cyrraedd safon uchel y gorau ar dir mawr Ewrop, fel y 'Pasisvhaus' Almaenig. Gyda'r safonau gorau mae'r galw am wres i'w gyfri mewn degau, nid miloedd a degau o filoedd, o'r unedau arferol (kW awr).

Oni fuasai'n well hybu ac, os oes rhaid, sybsideiddio ynysu a gwella tai, a sicrhau bod tai newydd yn cael eu codi at safonau ein cefndryd yn Scandinavia - yn lle sybsideiddio a swcro'r cwmnïau cynhyrchu tanwydd ac ynni?

Rhagfyr 5, 2013